# Adroddiad Cyfarfod 11:09:13 Merched y Wawr Bethel

Wedi seibiant dros yr Haf dechreuodd tymor newydd Merched y Wawr Bethel yn festri Cysegr,nos Fercher 11eg o Fedi. Daeth nifer dda iawn o aelodau ,hen a newydd at eu gilydd, ac fe'u croesawyd gan y llywydd Jen Roberts. Llongyfarchwyd plant a phobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant addysgol, a dymuniwyd pob llwyddiant iddynt mewn coleg neu waith. Cydymdeimlwyd a Rhian Hughes a gollodd ei thad yng nghyfrath, a hefyd Edwina Morris a gollodd ei chwaer, Margaret yn ystod yr haf. Croesawyd Gwyneth Williams yn ol wedi gwella'n dda yn dilyn triniaeth. Derbyniwyd y fantolen gan Nora, trysorydd llynedd, diolchiwyd iddi am ei gwaith. Diolchiwyd hefyd i'r aelodau fu'n casglu o ddrws i ddrws er budd Sefydliad Prydeinig y Galon. Cyfanswm y casgliad yn Seion a Bethel oedd £382.93. Diolchiwyd i Liz Watkin, Mair Price, Mair Williams a Mary Evans am weithio 'n galed ar stondin Merched y Wawr yng Ngŵyl Bethel. Diolch hefyd i Rita am baratoi'r gem. Casgliwyd £125.65 yn ystod y pnawn a rhoddwyd £30 i goffra'r Wyl. Cyhoeddwyd fod 'Te Bach McMillan' yn festri Cysegr o 2-6 ar Fedi 27. Tal mynediad yn £2.

Ein gwr gwadd oedd Neville Hughes, (Hogia Llandegai) , cawsom noson hwyliog llawn hwyl a chanu yn ei gwmni. Soniodd am  dyddiau difyr Hogia Llandegai o'u dechreuad fel grwp sgiffl a'u cyngerdd cyntaf yn 1957 pryd cawsant 12 swllt i'w rannu rhwng wyth ohonynt.Cynyddodd y galw arnynt i ganu mewn cyngherddau yn yr ardal a dechreusant gyfieithu caneuon poblogaidd Americanaidd y cyfnod a rhai o ganeuon Triawd y Coleg. Aeth yr Hogia o'r wyth gwreiddiol i bedwar, Ron,Neville, Roy a Now tan eu cyngerdd ffarwel cyntaf yn 1973. Yn 1979 daeth Now, Ron a Neville yn ol adeg Eistedfod Genedlaethol Caernarfon i noson fythgofiadwy yn y Majestic pryd daeth Now ac oen ar y llwyfan yn ystod y gân Defaid William Morgan. Cynhaliwyd y cyngerdd olaf un yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn 1996. Bu'n noson agoriadol  o chwerthin a phawb yn cyd ganu efo Neville caneuon roedd pawb yn eu cofio ers dyddiau eu plentyndod.

Diolchiwyd i Neville gan Mair Price dymunodd yn dda hefyd i Aled mab Jen sy'n priodi efo Casi ym mhen pythefnos. Cafwyd swper blasus a baratowyd gan y pwyllgor.Enilliwyd y raffl gan Eirlys Williams,Mair Price, Sheila Roberts ac Ann Lewis. Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 9fed yng nghwmni Sara a Miriam o gwmni Roberts Felinheli.

*A. Elis*